



COFNODION CYFARFOD BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO
Dydd Mawrth, 7 Hydref 2025, am 10am (cyfarfod Microsoft Teams)

Yn bresennol

Y Cynghorydd Marc Tierney (Cadeirydd)	Aelod Cabinet dros Bobl Ifanc, Cymuned, Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol, Cyngor Sir Penfro (CSP) Prif Swyddog Gweithredol, Cymdeithas Gwasanaethau
Jessica Bickerton (Is-gadeirydd)	Gwirfoddol Sir Benfro
Tegryn Jones	Prif Weithredwr, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir
Iwan Thomas	Penfro (APCAP)
Huwel Manley	Prif Weithredwr, PLANED
Uwch-arolygydd Louise Harries	Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
Eva Rees	Heddlu Dyfed-Powys (gadawodd am 11.53am)
Bruce Bolam	Coleg Sir Benfro (gadawodd am 12.04pm)
Mydrian Harries	Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (gadawodd am 12.29pm) Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Gwasanaeth Tân ac
Michael Gray	Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol a Thai, CSP (gadawodd am 12.30pm)
Darren Mutter	Pennaeth Gwasanaethau Plant, CSP (gadawodd am 12.29pm)
Anna Mullarkey	Porthladd Aberdaugleddau (cyrhaeddodd am 10.05am; gadawodd am 12.30pm)
Claire Germain	Dirprwy Gyfarwyddwr Trawsnewid Llywodraeth Leol a Phartneriaethau, Llywodraeth Cymru (cyrhaeddodd am 10.07am)
Linda Jones	Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru (cyrhaeddodd am 10.36am; gadawodd am 11.25am)
Alison Perry	Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd
Will Bramble	Prif Weithredwr, PCC (cyrhaeddodd am 11.19am)

Cymorth/ysgrifenyddiaeth

Nick Evans	Rheolwr Polisi a Phartneriaethau Corfforaethol, CSP
Lynne Richards	Swyddog Partneriaethau Corfforaethol, CSP
Rachael Rimmer	Swyddog Cymorth Polisi Corfforaethol, CSP
Amy Richmond-Jones	Rheolwr Ymgysylltu, Cynllunio a Pherfformiad, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Yn bresennol ar gyfer eitem 3

Beth Cossins	Prif Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (gadawodd am 11.03am)
Geinor Jones	Uwch-ymarferydd Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd
Sue Latham	Prifysgol Hywel Dda (gadawodd am 11.03am) PLANED (gadawodd am 11.02am)

Yn bresennol ar gyfer eitem 6

Rhian Bennett	Uwch-reolwr Comisiynu, CSP (gadawodd am 11.20am)
---------------	--

Yn bresennol ar gyfer eitem 8

Cheryl Gayther

Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd
(cyrhaeddodd am 11.32am)

Ymddiheuriadau

Barry Walters
Caroline Drayton

Coleg Sir Benfro
CNC

Dechreuodd y cyfarfod am 10.02pm

1. Croeso ac ymddiheuriadau

Croesawodd MT bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan yr unigolion a restrir uchod.

2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf / cofnod y camau gweithredu

Cofnodwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf fel rhai cywir. Roedd yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau.

3. Diweddariad ar wytnwch bwyd / gweithgarwch bwyd iach yn Sir Benfro

Rhannodd IT fod dull systemau cyfan rhanbarthol ar gyfer gwytnwch bwyd yn cael ei ddatblygu. Nod y gwaith hwn yw gwella argaeledd a fforddiadwyedd bwyd lleol ar gyfer ysgolion, ysbytai ac aelwydydd sy'n agored i niwed ar draws y sir. Mae gwaith gwytnwch bwyd yn Sir Benfro yn cael ei wneud gan gydweithwyr ym maes iechyd y cyhoedd yn ogystal â dros 100 o aelodau'r Bartneriaeth Bwyd Leol. Dywedodd ei bod yn hanfodol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gymryd rhan yn y gwaith hwn gan ei fod yn torri ar draws yr holl brif ffrydiau gwaith.

Rhoddodd BC a GJ gyflwyniad ar y dull systemau cyfan o ymdrin â phwysau iach:

- Dechreuwyd y gwaith hwn yn 2023, a chafwyd cyllid grant gan Lywodraeth Cymru i'w gyflawni. Cynhaliwyd gwaith ochr yn ochr â Phrifysgol Leeds Beckett i wneud rhywfaint o fapio systemau o'r system pwysau iach, gan gynnwys Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a phartneriaethau ehangach eraill.
- Edrychodd y gwaith yn bennaf ar achosion sylfaenol pwysau gormodol ar draws y boblogaeth. Nodwyd bod 60% o'r boblogaeth yn y categori 'dros bwysau' neu 'ordew', ac ystyrir bod un o bob tri o blant ysgol gynradd yn 'dros bwysau'.
- Ym mis Ebrill 2024, sefydlwyd tîm yn ffurfiol i edrych ar ganfyddiadau'r ymarfer mapio, gan gynnwys wyth thema bosibl:
 1. Cyfleoedd hamdden ar gyfer gweithgarwch corfforol
 2. Bwydo ar y fron
 3. Bwyd ysgol
 4. Bwyd afiach sydd ar gael
 5. Teithio llesol
 6. Hysbysebu a marchnata bwyd
 7. Gweithgareddau corfforol cyn-ysgol ac yn yr ysgol
 8. Fforddiadwyedd bwyd
- Cynhaliwyd cyfres o bum gweithdy gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gulhau'r themâu er mwyn creu ffocws mwy penodol. Penderfynwyd mai 'mynediad at fwyd' fyddai'r flaenoriaeth ranbarthol ar gyfer gweithredu ar y cyd.
- Mae rhwydwaith dysgu hefyd wedi'i sefydlu i helpu i feithrin gallu a galluogrwydd ar gyfer systemau sy'n gweithio ar draws y rhanbarth.

- Nododd Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol nad yw'r system fwyd bresennol yn gynaliadwy, gan atal targedau sero net a'r saith nod llesiant rhag cael eu cyrraedd. Nododd hefyd na ellir cyflawni gwell iechyd cyhoeddus heb sicrhau mynediad cyfartal at deietau lleol, fforddiadwy, iach a chynaliadwy. Bydd y maes gwaith hwn yn helpu i ddatblygu system fwyd sy'n gweithio ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.
- Cefnogir y gwaith gan dirwedd polisi a strategaeth gref, gan gynnwys 'Cymru Can', 'Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025', 'Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru 2025', a 'Pwysau Iach: Cymru Iach cynllun cyflawni 2025 i 2027'.
- Mae gweledigaeth ddrafft ar gyfer yr amgylchedd bwyd rhanbarthol erbyn 2050 wedi'i datblygu gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r themâu allweddol a ddangosir yn y weledigaeth hon yn cynnwys fel a ganlyn:
 1. Cynhyrchu
 - Diogelu natur gyda dulliau cynhyrchu bwyd mwy cynaliadwy
 - Bwyd iachach yn sefydliadau'r sector cyhoeddus
 - Pris teg a chefnogaeth i ffermwyr
 - Mwy o fwyd sy'n cael ei dyfu'n lleol ar gael i'w brynu'n lleol
 2. Prosesu
 - Prosesu lleol a chadwyni cyflenwi byrrach
 - 'Taith bwyd' fyrrach
 - Dealltwriaeth gynyddol o ble mae bwyd yn dod a'r system fwyd
 3. Manwerthu bwyd
 - Llai o ddibyniaeth ar fwydydd wedi'u mewnforio
 - Llai o hysbysebu bwydydd wedi'u prosesu'n ormodol a bwydydd â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen
 - Mwy o opsiynau bwyd iachach ar gael ar y strydoedd mawr
 4. Bwyta
 - Mwy o fwyta'n iach a llai o afiechyd sy'n gysylltiedig â deiet
 - Mwy o fwyta ffrwythau a llysiau a phroteinau o blanhigion
 - Mwy o fentrau bwyd cymunedol
 5. Gwastraff
 - Llai o wastraff bwyd gan bawb, a mwy o aiddosbarthu bwyd dros ben ac ailgylchu
- Bydd y gwaith rhanbarthol hwn a'r weledigaeth ar gyfer 2050 yn gwneud y canlynol:
 - Economi leol – yn cefnogi busnesau bwyd iach lleol, twristiaeth a'r economi gylchol
 - Gwytnwch bwyd ac ansicrwydd bwyd – meithrin cadwyni cyflenwi lleol cryfach a chynyddu nifer y bobl leol sy'n manteisio ar gynlluniau fel prydau ysgol am ddim a thalebau cychwyn iach
 - Caffael bwyd lleol – gwella'r cynnig bwyd mewn awdurdodau lleol, byrddau iechyd a sefydliadau cyhoeddus eraill, yn ogystal â chefnogi defnyddio contractau i sicrhau bod bwyd lleol yn mynd i bobl leol
 - Cynllunio – cynyddu cynhyrchiant bwyd lleol a chefnogi defnyddio rheolaethau hysbysebu i gyfyngu ar hysbysebion a dwysedd bwytai tecawê
 - Yr amgylchedd – lleihau gwastraff a llygredd a chefnogi arferion ffermio a deietau cynaliadwy i helpu i gyrraedd targedau sero net
 - Mentrau bwyd cymunedol a chymdeithasol – ehangu Partneriaethau Bwyd Lleol a phrosiectau coginio, tyfu a bwyta gyda'n gilydd
- Rhannodd SL fod Partneriaeth Bwyd Leol Sir Benfro wedi cael rhywfaint o gyllid i astudio gwytnwch bwyd sifil yn Nyfed-Powys, gyda'r bwriad o gyflwyno yn y pendraw y strategaeth gwytnwch bwyd gynhwysfawr gyntaf yn y DU.
- Yr uchelgais wrth symud ymlaen yw tyfu'r dull systemau cyfan, gan barhau i flaenoriaethu mynediad at fwyd ac annog Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro i gymryd rhan. Cynhaliwyd gweithdy diweddar gyda Byrddau Gwasanaethau

Cyhoeddus Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, lle cytunasant i gydweithio ar wytnwch bwyd, gan ganolbwyntio ar gaffael fel y prif flaenoriaeth.

Cytunwyd ar y camau gweithredu canlynol:

- Rhannu sleidiau'r cyflwyniad ar y dull systemau cyfan ar gyfer pwysau iach
- Rhannu'r papur briffio ar gyfer yr astudiaeth gwytnwch bwyd sifil

Gofynnodd BC i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried tri chwestiwn allweddol i'w trafod:

1. Pa ganlyniadau i drigolion Sir Benfro y gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eu gwella fwyaf trwy weithredu gyda'i gilydd ar fynediad at fwyd?
2. Pa ddulliau sydd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (cynllunio, caffael, ystadau, sefydliadau angor a'r economi gylchol) allai wneud y gwahaniaeth mwyaf?
3. A yw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro eisiau ymuno â Chymdeithas Chwaraeon Cymru yn rhanbarthol gyda ffocws ar 'fynediad at fwyd'? Os felly, sut fydd yn ymgysylltu, yn dysgu o'r hyn sy'n gweithio'n dda mewn mannau eraill, ac yn mynd gam ymhellach?

Codwyd y pwyntiau canlynol yn nhrafodaeth y grŵp:

- MT:
 - Mae gwytnwch bwyd yn hanfodol i gefnogi llesiant yn y sir a mynd i'r afael â phroblemau iechyd y cyhoedd.
 - Mae angen i sgysiaid am fwyd fod yn sensitif i sefyllfaoedd personol pobl, yn enwedig wrth ddelio â'r rhai sy'n 'brin o amser'.
 - Mae angen gwaith ymyrryd ac atal i nodi effaith hirdymor bwyd wedi'i brosesu'n uchel iawn.
 - Dim ond tua 5% o fwyd a gynhyrchir yng Nghymru sy'n mynd i ddefnyddwyr Cymru. Mae angen i waith gwytnwch bwyd gynnwys ehangu mentrau cymdeithasol da sy'n cynhyrchu bwyd ar sail leol i lefel fasnachol.
 - Byddai'n ddefnyddiol cael rhywfaint o ystadegau ar faint o fwyd sy'n cael ei gynhyrchu a'i fwyta'n lleol yn Sir Benfro.
- TJ:
 - Mae gwytnwch bwyd yn fater trawsbynciol sy'n cwmpasu meysydd gwaith y tu mewn a'r tu allan i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r gwaith hwn yn gyfle i ddod ag ystod ehangach o bartneriaid i mewn ac annog gweithio mewn partneriaeth.
 - Mae caffael yn offeryn defnyddiol ac mae wedi bod yn gyfle a gollwyd yn y gorffennol. Cafodd TJ sgwrs gyda rhywun ym Mhartneriaeth Bwyd Leol Sir Gaerfyrddin ynglŷn â'r gwaith maen nhw'n ei wneud ar gaffael bwyd yn gyhoeddus. Gellid atgynhyrchu hyn fel darn o waith rhanbarthol.
 - Mewn digwyddiad yn diweddar gan Croeso Sir Benfro, rhoddodd Llywodraeth Cymru gyflwyniad ar werth bwyd Cymru i'r diwydiant twristiaeth. Roedd llawer o ddiddordeb yn y pwnc hwn yn y digwyddiad.
 - Gwnaed gwaith yn Sioe Sir Benfro i helpu pobl i ddatblygu dealltwriaeth o ble mae bwyd yn dod.
 - Gellid trefnu digwyddiad uwchgynhadledd bwyd i ddod â phartneriaid ynghyd i ystyried materion sy'n ymwneud â gwytnwch bwyd.
- SL:
 - Mae Sir Benfro yn rhan o fenter Llyisiau Cymru mewn Ysgolion, sy'n golygu bod gan bob ysgol gynradd yn y sir y cyfle i brynu cynnyrch lleol ffres. Cynhaliwyd gweithdai gyda thua 80 o blant yng Ngŵyl Fwyd Arberth i ledaenu ymwybyddiaeth am hyn.
 - Mae uwchgynhadledd bwyd ranbarthol yn cael ei threfnu am ryw gyfnod ym mis Ionawr neu Chwefror 2026.

- JB:
 - Nid yw galw cynyddol mewn banciau bwyd yn broblem dymhorol mwyach ac mae'r galw bellach yn uchel drwy gydol y flwyddyn. Mae hyn yn gysylltiedig yn bennaf â chostau byw uwch a thlodi.
 - Mae llawer o fentrau cymunedol ar y gweill i gefnogi teuluoedd ledled y sir, er bod y rhain yn dibynnu ar wirfoddolwyr. Mae hyn yn cynnwys cyllid Mannau Cynnes.
 - Mae angen mwy o fewnwelediad i economeg gwytnwch bwyd. Er enghraifft, ai llyisiau lleol sy'n fwyaf fforddiadwy o ystyried y cyfyngiadau cyllidebol presennol ar gyfer sefydliadau cyhoeddus.
 - Mae Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS) yn gweithio gyda nifer o fentrau cymdeithasol sy'n tyfu yn y maes bwyd, a chynlluniwyd digwyddiad ychydig wythnosau yn ôl i ddod â'r mentrau hyn at ei gilydd. Y brif her yw codi'r mentrau cymdeithasol hyn i raddfa briodol.
 - Dylid cynnwys y sector preifat hefyd i gymryd rhan mewn sgysiau ynghylch gwytnwch bwyd.
 - Dylid dod â chydweithwyr cynllunio i'r maes gwaith hwn oherwydd lefel y busnesau a'r cadwyni bwyd cyflym a allai fod yn niweidiol ar y stryd fawr. Ychwanegodd MT, er y byddai angen deddfwriaeth sylfaenol gan Lywodraeth Cymru i gefnogi hyn, y gallai fod yn gyfle i bartneriaid lloio i gael rhywfaint o ganllawiau cryfach.
- BB:
 - Bwydydd wedi'u prosesu'n uchel iawn yw'r ffactor mwyaf sy'n achosi gordewdra ac ychwanegu calorïau gormodol at ddeietau. Bydd Cymru yn mabwysiadu diwygiadau ynghylch bwydydd wedi'u prosesu'n uchel iawn yn dilyn cymeradwyaeth y Senedd. Bydd y newidiadau hyn yn gweld bwydydd cyflym wedi'u prosesu'n uchel iawn yn cael eu tynnu o ddesgiau talu archfarchnadoedd a chynigion ar ddiwedd eiliau. Yn Lloegr, amcangyfrifir bod y newidiadau hyn wedi lleihau lefelau bwyta bwydydd wedi'u prosesu'n uchel iawn o ddwy filiwn o eitemau'r dydd.
 - Bydd gwaith ar draws y rhanbarth ar gaffael bwyd gan y cyhoedd yn werthfawr i economïau lleol a gellir ei gysylltu â deddfwriaeth caffael cymdeithasol newydd gan Lywodraeth Cymru.
 - Mae rhai byrddau iechyd wedi bod yn edrych ar ddarparu bwydydd i gleifion drwy unedau prosesu canolog, gan ganiatáu cynhyrchu bwyd hygyrch o ansawdd uchel am y gost leiaf posibl. Gellid ehangu cwmpas y gwaith hwn i gynnwys Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.
- HM:
 - Dylid ystyried effaith amgylcheddol y gwaith hwn. Mae nifer cynyddol o dda byw ar ffermydd wedi creu mwy o dail nag y gall y dirwedd naturiol ymdopi ag ef. Mae problemau tai cymdeithasol hefyd wedi codi oherwydd problemau gyda nitradau. Mae angen gwaith i gefnogi ffermydd i fabwysiadu dull cyfannol a lleihau da byw er mwyn cyflawni model ffermio cymysg.
 - Mae gwaith gwytnwch bwyd yn dod â chostau seilwaith mawr, megis cost cyfleusterau oeri a rhewi i storio cynnyrch lleol mewn lleoliadau strategol.
 - Mae angen ateb tymor hwy i helpu i uwchsgilio ffermydd lle mae dealltwriaeth o dyfu llyisiau wedi'i cholli.
 - Os gellir cyflawni mwy o gydweithio ar draws y rhanbarth, gallai hyn helpu i rannu costau seilwaith a gwaith gwytnwch bwyd. Ychwanegodd MT y gellir cyflawni cydweithio ehangach drwy gysylltu ag undebau ffermio a chwmnïau cynhyrchu bwyd lleol.
- ER:
 - Mae Canolfan y Dechnoleg Amgen wedi datblygu dull systemau cyfan tuag at sero net drwy'r Labordy Arloesi. Roedd hyn yn cynnwys dod â grŵp o

- awdurdodau lleol bach ynghyd yn Swydd Stafford ac edrych ar sut i fynd â'r rhanbarth i garbon sero net.
- Gellid defnyddio lens debyg yn y rhanbarth i fynd i'r afael â thlodi bwyd.
- GJ:
 - Yn ddiweddar, mae'r tîm wedi bod yn rhan o waith Menter Partneriaeth Polisi Lleol (LPIP) ar draws Hywel Dda, gan gynnwys y prosiect Tyfu, Coginio a Bwyta Gyda'n Gilydd.
 - Mae SL wedi bod yn rhan o brosiect i ddatblygu ceginau cymunedol, gyda chefnogaeth prifysgolion Aberystwyth a Chaerdydd.
 - Mae'n ddefnyddiol cynnwys sefydliadau addysg uwch mewn gwaith gwytnwch bwyd gan y gallant ddarparu cyfleoedd ymchwil a dysgu.
- IT:
 - Mae sefydliadau ledled Sir Benfro eisoes yn cynnal llawer o weithgarwch a gwaith o amgylch gwytnwch bwyd.
 - Mae hwn yn gyfle i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus hyrwyddo gwytnwch bwyd a dangos bod Sir Benfro yn sir fwyd iach.

Gan nad oedd unrhyw anghytuno, cytunwyd y byddai Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro yn cefnogi gwaith gwytnwch bwyd lle bo modd trwy ffrydiau gwaith presennol, yn ogystal â chefnogi gwaith rhanbarthol lechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch pwysau iach yn y dyfodol.

4. Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025 – ymateb Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro i'r argymhellion

Cafodd y ddogfen sy'n cynnwys argymhellion ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus o Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025 a gyflwynwyd yn y cyfarfod diwethaf ei chynnwys fel rhan o becyn yr agenda. Mae'r tabl yn dangos y gweithgareddau presennol y mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro yn ymgymryd â nhw, yn ogystal â chynigion ar sut i gyflawni'r argymhellion.

Awgrymodd MT y gellid gwahodd Derek Walker, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, i gyfarfod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol. Nododd NE, yn y llythyr at Derek Walker, y bydd ymateb y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'r argymhellion yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei atodi i amlinellu'r cynnydd presennol yn Sir Benfro. Cymeradwyodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yr ymateb i'r argymhellion a chytunodd y byddai hon yn ffordd addas ymlaen.

5. Diweddariad ar drafodaethau'r grŵp ar natur, datgarboneiddio a newid hinsawdd

Yn ddiweddar, cymerodd TJ yr awenau fel arweinydd dros dro'r prosiectau â thema amgylcheddol. Darparwyd diweddariad:

- Nid yw'r tri phrosiect wedi cael digon o gefnogaeth gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn cyflawni gwaith yn effeithiol. Mae'r cynnydd cyfredol ym mhob maes prosiect yn waith a fyddai wedi'i wneud gan sefydliadau beth bynnag, ac nid yw'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ychwanegu unrhyw werth.
- Mae angen i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gymryd y prosiectau hyn o ddifrif, neu bydd angen i'r grŵp ailystyried y blaenoriaethau a ddewiswyd yn wreiddiol.
- Mae tri arweinydd y gwahanol brosiectau wedi nodi eu bod yn cael presenoldeb gwael mewn cyfarfodydd, ac nad yw'r rhai sy'n mynychu'n gweithio ar lefel uwch i wneud penderfyniadau perthnasol.
- Mae targed Llywodraeth Cymru o sero net erbyn 2030 yn agosáu ac mae gan y sectorau wahanol ddulliau gwahanol o gyrraedd y nod hwn. Mae budd mawr i

bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rannu arferion da yn y maes hwn i sicrhau bod cefnogaeth yn cael ei darparu ar lefel leol.

- Ychydig iawn o symudiad sydd wedi bod ar y camau gweithredu ar gyfer cydnerthedd hinsawdd a gytunwyd yn flaenorol, ac mae'r gwaith hwn wedi colli momentwm. Fforwm Arfordir Sir Benfro yw'r prif sefydliad sy'n cadw gwaith cydnerthedd hinsawdd yn weithredol ar hyn o bryd, ond nid oes ganddyn nhw gyllid ar gyfer hyn. Bydd TJ a Tom Luddington yn cysylltu â phartneriaid yn fuan i ofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am gamau cydnerthedd hinsawdd, a bydd hyn yn cael ei gyflwyno eto i gyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol.
- Fel rhan o brosiect Argyfwng Natur, y gobaith oedd y byddai rhywfaint o gyllid ar gael i ddatblygu cynllun bioamrywiaeth ar draws y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Ar hyn o bryd, nid oes cyllid ar gael, a bydd TJ yn gweithio gydag Ant Rogers i ddod o hyd i ffordd ystyrlon o symud y gwaith hwn ymlaen.

6. Diweddariadau ar brosiectau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Cryfhau Cymunedau

Rhoddodd RB yr wybodaeth ddiweddaraf am y ffrwd waith Cryfhau Cymunedau:

- Mae cyfarfodydd grwpiau gweithredol a strategol yn parhau i gael eu cynnal, gyda'r cyfarfodydd diweddaraf yn cael eu cynnal ym mis Awst a mis Medi.
- Y ffocws presennol yw adolygu ac adnewyddu'r pum maes blaenoriaeth y cytunwyd arnynt yn flaenorol gyda phartneriaid:
 1. Gwirfoddoli
 2. Mentrau cymdeithasol
 3. Cynlluniau a phroffiliau llesiant cymunedol
 4. Trosglwyddo asedau cymunedol
 5. Cysylltwyr cymunedol
- Nododd yr is-grŵp strategol fod angen gwneud mwy o waith ynghylch cynnydd ac uchelgais y blaenoriaethau presennol. Gallai meysydd blaenoriaeth yn y dyfodol gynnwys y canlynol:
 - Adeiladu'r sylfaen dystiolaeth
 - Cydlyniant cymunedol
 - Cydgynhyrchu ac ymgysylltu
 - Adeiladu ar asedau ac adnoddau ar y cyd
- Darperir diweddariad ar y blaenoriaethau a'r ffyrdd o weithio wedi'u hadnewyddu yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Mae prosiect y Newid Mwyaf Arwyddocaol wedi parhau, dan arweiniad Gyda'n Gilydd dros Newid. Cynhaliwyd dwy sesiwn hyfforddi y mis diwethaf, ac roedd nifer dda o bartneriaid yn bresennol yn y rhain. Mae nifer gynyddol o bartneriaid y tu allan i ffrwd waith Cryfhau Cymunedau bellach yn mynychu sesiynau ac yn dysgu manteision y dull Newid Mwyaf Arwyddocaol.
- Y cam nesaf i'r Newid Mwyaf Arwyddocaol fydd cynnal trafodaethau panel thematig, gan ddefnyddio strwythur y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i wneud hyn. Bydd hyn yn caniatáu i bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrando ar straeon am y Newid Mwyaf Arwyddocaol gan bobl sy'n byw ledled Sir Benfro.

Mynegodd MT fod angen sgysiau gyda phartneriaid y tu allan i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch gwytnwch cymunedol, cydlyniant cymunedol a chryfhau cymunedau yn ystod digwyddiadau lleol a thywydd garw. Nododd HM fod y Fforwm Gwydnwch Lleol yn arwain ar waith sy'n gysylltiedig â digwyddiadau stormydd a bod is-grwpiau o'r sectorau gwirfoddol yn aml yn rhan o hyn. Mae cynllun cysylltiedig yn cael ei adolygu gan y Fforwm Gwydnwch Lleol ar hyn o bryd, a bydd hwn yn cael ei ddsbarthu'n fuan i gydweithwyr cynllunio at argyfyngau yn yr awdurdod lleol. Ychwanegodd RB fod yr Hwb Cymunedol

wedi'i gynnwys yn y broses gynllunio at argyfyngau yn Sir Benfro ac wedi darparu lefel uchel o gefnogaeth yn ystod stormydd yn y gorffennol.

Tlodi

Rhoddodd DM yr wybodaeth ddiweddaraf am y ffrwd waith Tlodi:

- Mae'r ymgyrch gyntaf ar gyfer plattform LIFT bellach yn fyw. Mae hyn yn gysylltiedig â chredydau pensiwn. Dylai data ar hyn fod ar gael erbyn cyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Mae paratoadau ar y gweill ar gyfer ymgyrchoedd plattform LIFT yn y dyfodol, gan gynnwys talebau cychwyn iach a phrydau ysgol am ddim. Er bod grantiau pryddau ysgol am ddim bellach ar gael i bob plentyn cynradd, mae annog rhieni cymwys i gofrestru ar gyfer grantiau pryddau ysgol am ddim ar-lein yn golygu y bydd gan lawer o ysgolion hawl i gael Grantiau Amddifadedd Disgyblion.
- Mae prosiect People PWR yn cefnogi pobl i gael mynediad at fudd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt, ond, yn wahanol i blatfform LIFT, gellir ei ddefnyddio trwy atgyfeiriad yn unig. O fis Ebrill i fis Awst, roedd yr enillion cyfartalog fesul unigolyn bron yn £8,500. Mae cynnydd sydyn yn y cyfartaledd ym mis Gorffennaf ac Awst yn dangos bod pobl ledled y sir yn ennill swm sylweddol o arian.
- Mae Plant yng Nghymru wedi tynnu sylw at brosiect People PWR fel enghraifft o arferion da yn rhifyn yr hydref eu cylchgrawn, sydd ar ddod.
- Mae'r grŵp Troi Geiriau yn Weithredu, a reolir gan Gyngor ar Bopeth, bellach wedi lansio eu hadroddiad terfynol. Mae'r adroddiad yn gwneud pum argymhelliad, a bydd yr Is-grŵp Trechu Tlodi yn ystyried y gwaith sydd ei angen i gyflawni'r rhain.
- Mae cynlluniau i gynnal trydedd uwchgynhadledd trechu tlodi ym mis Chwefror 2026. Bydd manylion pellach yn cael eu rhannu gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus pan fydd y gweithgor wedi'u cwblhau.
- Bydd DM yn gadael ei rôl o fewn yr awdurdod lleol yn fuan ac ni fydd yn mynychu cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro mwyach. Bydd James White yn cymryd yr awenau fel cadeirydd yr Is-grŵp Trechu Tlodi.

Cytunwyd ar y cam gweithredu canlynol:

- Rhannu erthygl Plant yng Nghymru am brosiect People PWR

Cwestiynodd TJ a oedd DM yn teimlo bod gwerth gwirioneddol i'r Uwchgynhadledd Trechu Tlodi, gan fod y digwyddiadau hyn yn cymryd llawer o amser ac adnoddau. Mynegodd DM fod gwerth yn y digwyddiadau hyn gan eu bod yn cadw mater tlodi ar agendâu pobl ac yn sicrhau bod negeseuon allweddol yn cael eu lledaenu mewn ffordd gydlynol.

Diolchodd MT i DM am yr holl waith y mae wedi'i wneud i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gwasanaethau Plant.

7. Papur opsiynau ar gyfer Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol

Roedd y papur opsiynau ar gyfer ystyried Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol wedi'i gynnwys ym mhhecyn yr agenda. Y prif opsiynau yw fel a ganlyn:

Opsiwn 1 – Cynnal y trefniadau presennol. Dim uno byrddau na chydweithio.

Opsiwn 2 – Uno Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion yn ffurfiol yn Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol.

Opsiwn 3A – Cydweithrediad ffurfiol rhwng Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.

Opsiwn 3B – Datblygu strwythur cydweithredol rhwng y tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, megis grŵp cydlynu strategol.

Opsiwn 4 – Uno ffurfiol rhwng dim ond dau o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Nododd MT fod cydweithwyr yng Ngheredigion a Sir Gaerfyrddin eisoes wedi cyfarfod i drafod eu safbwynt. Er bod Sir Gaerfyrddin o blaid uno llawn, roedd o'r farn bod Ceredigion yn ymddangos yn llai sicr o'r dull hwn, er eu bod wedi cyflwyno'r cynnig. Fodd bynnag, roeddent yn ymddangos â diddordeb mewn mwy o gydweithio yn y rhanbarth.

Gofynnodd MT i bob partner rannu eu barn ar yr opsiynau a gyflwynwyd:

- DM:
 - Byddai uno llawn yn lleihau ffocws y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar ystyriaethau lleol, gan effeithio'n negyddol ar y gwaith pwysig sy'n digwydd yn lleol yn Sir Benfro.
 - Byddai'n ddefnyddiol dod ynghyd i drafod blaenoriaethau rhanbarthol, ond byddai angen gwneud hyn mewn ffordd strwythuredig.
 - Mae Opsiwn 3A yn eithaf amwys ac nid yw'n darparu strwythur clir ar gyfer sut y byddai cydweithio'n gweithio.
 - Mae Opsiwn 3B yn gyfaddawd da, gan ganiatáu rhywfaint o ffocws ar faterion cyffredin ar draws y rhanbarth heb gollir ffocws ar flaenoriaethau lleol.
- TJ:
 - Gall fod yn rhwystredig ac yn ddryslyd bod y diffiniad o 'ranbarth' yn ymddangos yn wahanol yn dibynnu ar y maes gwaith. Yn yr achos hwn, mae 'ranbarth' yn cyfeirio at Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion yn unig.
 - Y prif reswm y mae'r adroddiad yn ei roi dros uno llawn yw presenoldeb gwael yng nghyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Nid yw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro yn tueddu i gael y broblem hon, ac nid yw hon yn ddadl ddigon cryf dros symud i ffocws rhanbarthol.
 - Arferai cyfarfodydd blynyddol gael eu cynnal i ddod ag arweinwyr y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ynghyd ar draws y rhanbarth. Efallai y byddai'n werth archwilio'r opsiwn hwn yn hytrach na chyfuno'r tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn llwyr.
 - Byddai uno llawn yn lleihau'r ffocws ar ystyriaethau lleol ac yn colli'r atebolrwydd gwleidyddol lleol.
 - Mae angen mwy o gydweithio fel cam cyntaf, felly opsiwn 3B fyddai'r ffordd fwyaf priodol ymlaen. Mae posibilrwydd y gellid ystyried uno llawn yn ddiweddarach os bydd y cydweithio'n llwyddiannus.
- MT:
 - Mae gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro lawer o fomentwm a gall ddangos ei fod yn cyflawni gwaith. Gallai hyn gael ei gollir pe bai uno llawn yn cael ei weithredu.
 - Mae dull cydweithredol eisoes ar waith yn Sir Benfro. Dylid diogelu'r perthnasoedd gwaith da sydd ar waith rhwng partneriaid lleol.
 - Bydd Ceredigion yn cynnal gweithdy yn fuan i benderfynu sut olwg fyddai ar drefniant rhanbarthol. Gallai hyn fod yn werth ei ystyried.
- WB:
 - Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith o dan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro wedi ennill ei blwyf yn dda, fel y dangosir gan y ffrwd waith tloidi. Ni fyddai uno llawn o fudd i ffrydiau gwaith Sir Benfro.
 - Mae gan bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lleol ei flaenoriaethau unigryw ei hun, a bydd y rhain yn cael eu colli os bydd uno llawn yn cael ei weithredu.

- Ni fyddai Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol yn cael unrhyw gyllid nac adnoddau ychwanegol.
- Dylid cadw'r trefniadau presennol ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus lleol, er y gellid archwilio cydweithio pellach drwy opsiwn 3B.
- Mae angen rhagor o wybodaeth am sut olwg fyddai ar 3B, megis pwy fyddai angen i'r cynrychiolwyr fod a pha mor aml y byddai angen i'r grŵp gyfarfod. Byddai cyfarfodydd chwarterol neu ddwywaith y flwyddyn fwyaf priodol.
- JB:
 - Pwrpas y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yw meithrin cydweithio cryf ar draws gwasanaethau cyhoeddus a chyflawni'r cynllun llesiant. Mae hyn eisoes yn cael ei gyflawni gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro.
 - Mae'r rhesymeg dros uno llawn yn seiliedig ar yr hyn na all Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus lleol ei wneud, ond nid yw hyn yn gallu gwrthsefyll gwaith craffu. Os oes anhawster cael pobl i fynychu cyfarfodydd, dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried a ydynt yn gwahodd y bobl gywir.
 - Nid yw'r papur opsiynau yn dangos gweledigaeth ar gyfer sut y byddai cynlluniau llesiant yn cael eu cyflawni ar y cyd ar draws y tair sir.
 - Gallai fod rhywfaint o fudd i ddod ynghyd fel rhanbarth i edrych ar faterion penodol mewn ffordd strategol. Gallai Opsiwn 3B helpu i hwyluso hyn.
- HM:
 - Mae CNC yn mynychu chwe Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru. Byddai uno'r tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei gwneud hi'n haws mynychu cyfarfodydd.
 - Mae'r cynlluniau llesiant ar draws y tair sir yn eithaf tebyg a gellid eu huno o fewn un ddogfen. Byddai hyn yn ei gwneud hi'n haws datblygu gweledigaeth ar y cyd.
 - Mae gan bob sir ei heriau unigryw ei hun a'i blaenoriaethau lleol na ddylid eu hanghofio. Gallai cydweithio rhanbarthol fod yr opsiwn gorau i ddechrau, gan edrych o bosibl ar uno llawn yn y blynyddoedd i ddod os bydd yn llwyddiannus. Opsiwn 3B fyddai'r opsiwn mwyaf addas.
- BB:
 - Byddai mwy o gydweithio yn y rhanbarth yn fuddiol, er ei bod hi'n bwysig peidio â cholli ffocws ar bryderon lleol a chymunedol.
 - Mae'r bwrdd iechyd ei hun wedi mynd trwy broses hir o newid yn fewnol, ac mae'r broses hon yn cymryd amser.
 - Gallai dod â gwaith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn agosach at ei gilydd roi cyfle i alinio ymdrechion ar flaenoriaethau a rennir.
- MH:
 - Mae galw mawr am adnoddau i'r gwasanaeth tân allu mynychu cyfarfodydd prif grŵp ac is-grŵp y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
 - Byddai uno ffurfiol yn cael ei ffafrio yn y dyfodol gan y byddai hyn yn cefnogi uchelgeisiau a nodau ar y cyd.
 - Os yw'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ansicr ar hyn o bryd ynghylch uno ffurfiol, mae rhywfaint o rinwedd o hyd mewn dwyn ynghyd feddwl strategol ar themâu allweddol. Gallai Opsiwn 3B fod y ffordd orau ymlaen.
- AP:
 - Mae'n anodd i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau sicrhau eu bod yn cyfrannu'n gyson at bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y rhanbarth, gan fod pob un yn gweithredu'n wahanol.
 - Byddai symud tuag at ffyrdd cydweithredol, thematig o weithio yn fan cychwyn defnyddiol. Byddai Opsiwn 3B yn hwyluso hyn.

- IT:
 - Byddai'n anodd datblygu cynllun llesiant rhanbarthol oherwydd y gyrwyr lleol cynhenid sy'n gofyn am ffocws mwy targedig. Mae strategaeth Canolbarth a Gorllewin Cymru eisoes ar gyfer rhanbarth Hywel Dda, a gellid defnyddio hon fel cyfrwng ar gyfer llesiant wrth barhau i gadw cynlluniau lleol.
 - Mae cydweithio sylweddol eisoes yn digwydd rhwng sefydliadau addysg uwch ar draws y rhanbarth. Mae angen cydweithio strategol a ffocws lleol i ddiogelu'r gweithlu yn y dyfodol, gan fod llawer o fyfyrwyr yn dod i mewn ac yn gadael y sir am gyfleoedd addysgol.
 - Dylid ystyried Opsiwn 3B fel y ffordd ymlaen. Ni all y tair sir weithio ar eu pen eu hunain oherwydd nid yw eu cymunedau'n bodoli ar eu pen eu hunain. Mae angen mwy o gydweithio mewn meysydd gwaith sy'n croesi ffiniau.
- MG:
 - Opsiwn 3B fyddai'r opsiwn gorau.
 - Mae mecanweithiau i gefnogi cyflawni blaenoriaethau'n gyflym yn cael eu datblygu drwy grwpiau lleol, ac ni ddylid colli'r ffocws hwn.
 - Mae Sir Benfro eisoes yn cydweithio ag awdurdodau lleol eraill mewn llawer o feysydd gwaith allweddol.
- CG:
 - Mae yna lawer o wahanol opsiynau ar gyfer cydweithio y gallai'r tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eu hystyried. Yng Nghymru, mae rhai byrddau wedi uno'n ffurfiol, mae rhai wedi creu bwrdd ar y cyd heb uno ffurfiol, ac mae rhai wedi dewis cydweithio ar gynlluniau ac asesiadau ar y cyd.
 - Pa bynnag opsiwn a ddewisir, mae angen i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sicrhau y bydd yn cefnogi llesiant.

Roedd y papur opsiynau wedi'i ddsbarthu ymhell cyn y cyfarfod ac roedd pob partner wedi cael cyngor i drafod yr opsiynau'n fewnol ymlaen llaw gan y byddai disgwyl iddynt bleidleisio ar ran eu sefydliad yn y cyfarfod. Yn unol â chylch gorchwyl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, eglurwyd bod gan bob sefydliad un bleidlais, waeth faint o bobl oedd yn bresennol o sefydliad. Roedd y sefydliadau/cynrychiolwyr canlynol yn bresennol ar gyfer y bleidlais:

1. Cyngor Sir Penfro – Will Bramble
2. Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru – Mydrian Harries
3. Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda – Bruce Bolam
4. CNC – Huwel Manley
5. APCAP – Tegryn Jones
6. Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro – Jessica Bickerton
7. PLANED – Iwan Thomas
8. Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd – Alison Perry

Dyweddodd MT y byddai'n cymryd pob un o'r opsiynau yn eu trefn ac yn gofyn i sefydliadau bleidleisio ar eu hopsiwn dewisol. Dywedodd BB y byddai angen iddo drafod ymhellach yn fewnol ac felly y dylid ystyried ei bleidlais yn un dangosol yn unig. Aeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ymlaen i bleidleisio ar bob un o'r opsiynau. Ni chafodd opsiynau 1 a 2 unrhyw bleidleisiau. Cytunodd yr aelodau'n unfrydol mai 3b yw'r opsiwn a ffefrir, gyda'r amod bod angen archwilio a datblygu'r union fodel a strwythur ymhellach cyn y gallai Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro ymrwymo'n llawn i unrhyw newid yn y gwaith presennol. Gan fod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi mynegi dewis clir dros opsiwn 3b, ni phleidleisiwyd ar opsiwn 4. Ymrwymodd MT i gysylltu â'i gymheiriaid ym Myrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin a Cheredigion i'w hysbysu am benderfyniad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro.

8. Cynllun Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Rhoddodd AP a CGa gyflwyniad ar Gynllun Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys:

- Mae'n ddyletswydd gyfreithiol i gyhoeddi cynllun heddlu a throseddu.
- Roedd nifer o ystyriaethau allweddol wrth ddatblygu'r cynllun, gan gynnwys gofynion statudol, blaenoriaethau partneriaid, ymchwil staff Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, a thirwedd y DU, Cymru a'r ardal leol. Cynhaliwyd archwiliad ar y broses ymgynghori, gan ganfod bod y broses yn wybodus ac yn gynhwysol.
- Mae'r cynllun newydd wedi'i gyhoeddi ar y wefan, gyda chopïau papur yn Saesneg neu'n Gymraeg ar gael ar gais. Mae copïau a fideos hawdd eu deall ar gael hefyd.
- Mae'r cynllun yn strategol ac ar lefel uchel, ond mae cynllun busnes oddi tano.
- Nod y cynllun yw gwella ymddiriedaeth a hyder mewn plismona lleol drwy wneud y canlynol:
 - Cefnogi dioddefwyr ac atal erledigaeth
 - Cefnogi cymunedau diogel drwy atal niwed
 - Cefnogi system gyfiawnder fwy effeithiol
- Bydd perfformiad y cynllun yn cael ei fonitro drwy adroddiadau chwarterol i'r Bwrdd Plismona Strategol, setiau data ffocws blaenoriaeth chwarterol, ac adroddiad crynodeb blynyddol.
- Hoffai Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu gynnwys partneriaid mewn adolygiadau pwyllgorau dethol, proses graffu newydd i adolygu meysydd ffocws allweddol. Bydd hyn yn galluogi Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu i ddwyn y Prif Gwnstabl ac eraill i gyfrif yn gyhoeddus. Bydd tri adolygiad y flwyddyn a chynhaliwyd y cyntaf ym mis Mai 2025: *"Beth yw effaith gwasanaethau ymyrraeth, atal ac ymgysylltu Heddlu Dyfed-Powys a phartneriaid ym meysydd troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar bobl ifanc 18-25 oed?"*

9. Unrhyw fater arall

Nid oedd unrhyw fater arall i'w drafod.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.41pm.

Cofnod o'r camau gweithredu

Rhif	Tud.	Cam gweithredu	Dyddiad targed	Perchennog	Datrysiad
1	3	Rhannu sleidiau'r cyflwyniad ar y dull systemau cyfan tuag at bwysau iach	Cyn gynted â phosib	BC/LR	WEDI'I GWBLHAU
2	3	Rhannu'r papur briffio ar gyfer yr astudiaeth gwytnwch bwyd sifil	Cyn gynted â phosib	SL/LR	WEDI'I GWBLHAU
3	8	Rhannu erthygl Plant yng Nghymru am brosiect People PWR	Cyn gynted â phosib	LR	WEDI'I GWBLHAU